Cenn@d

MAWRTH 31 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 5

Anobaith a THRISTWCH → Gobaith a LLAWENYDD

Wrth eich cyfarch fel aelodau'r Eglwysi Rhyddion yng Nghymru ar drothwy'r Pasg, mae'r ddau lun uchod yn cynnig eu hunain fel y delweddau priodol, nid yn unig am y cyfnod hwn sy'n cynrychioli ein gŵyl bwysicaf fel Cristnogion ond bod y geiriau sy'n gysylltiedig â'r lluniau hefyd yn adlewyrchiad teg o'r flwyddyn a aeth heibio. Mae anobaith a thristwch wedi ein goddiweddyd ac yn nodweddion mor amlwg ers dros flwyddyn bellach, ond siawns na fydd goruchafiaeth y Bedd Gwag nid yn unig yn gysur i ni ond hefyd yn rhoi gobaith am lawenydd yn y dyfodol.

Nos Iau Cablyd a Gwener y Groglith

Jwdas yn bradychu. Y disgyblion yn cysgu. Y Sanhedrin yn condemnio. Pedr yn gwadu. Pilat yn gweithredu. Y milwyr yn gwatwar. Croeshoelio Iesu ar Golgotha. Tywyllwch dros y wlad am dair awr. Llen y deml yn cael ei rhwygo. Y disgyblion wedi ei adael. Wrth y groes – merched: Mair, mam Iesu (a mam Iago a Joseff), Mair Magdalen, a mam meibion Sebedeus. Hefyd 'y disgybl yr oedd Iesu yn ei garu'. Claddu Iesu.

Dyna ddigwyddodd 2000 a mwy o flynyddoedd yn ôl. Wedi blynyddoedd o addysgu a dangos y ffordd i'w ddisgyblion, mae Iesu'n eu gweld yn ei fradychu, ei wadu ac yn cuddio o olwg y bobl. Dim ond y merched ac un disgybl oedd wrth y groes. Ond yno hefyd yr oedd dau ddihiryn, milwyr ac anffyddiwr o ganwriad. Y rhai mwyaf annisgwyl, gydag un yn gofyn am faddeuant a'r canwriad yn cyffesu: 'Mab Duw oedd e, reit siŵr.'

Coronafeirws – COVID-19

Mawrth 2020: y pandemig yn taro. Blwyddyn o anobaith a thristwch. Cyfnodau pan oedd popeth ar glo drwy'r wlad i gyd. Dim capeli ar agor. Dim priodasau. Miloedd yn marw.

Ond gobaith gyda dyfodiad y brechlyn – diolch am ddyfeisgarwch gwyddonwyr. Eglwysi'n ymateb drwy wahanol ffyrdd ac yn cynnal oedfaon a gweithgareddau eraill drwy ddefnyddio amrywiaeth technolegol.

Sul y Pasg

Y merched yn dod at y bedd. Y 'maen' wedi ei dreiglo. Mynd i hysbysu'r disgyblion fod Iesu wedi atgyfodi. Pedr a'r disgybl 'yr oedd Iesu yn ei garu' yn dod at y bedd gwag: 'gwelodd ac fe gredodd'. Y disgyblion yn mynd yn ôl adref. Iesu'n ymddangos i'r disgyblion yn yr ystafell / ar lan y môr. Pedr yn gwneud ei ddatganiad: 'Rwyt yn gwybod fy mod yn dy garu di.' Beth wedyn? Llawenydd y Sulgwyn; pregethu Pedr.

Y dyfodol? Beth sydd gan neges y Pasg i'w ddweud wrthym fel Eglwysi Rhyddion am y dyfodol yng ngoleuni anobaith a thywyllwch 2020–21. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog gyda gobaith am ddyfodol llewyrchus yn llawn llawenydd. Cofiwn beth oedd nodweddion yr Eglwys Fore: roedden nhw'n cyfarfod i addoli ac roedd pawb yn sylwi mor llawen yr oeddden nhw. Mae'r cyfnod diweddar wedi dangos ei bod yn bosib newid pan fo raid. Fedrwn ni byth fynd yn ôl i wneud pethau fel yr oedden nhw. Nid wyf am awgrymu mai Duw sy'n gyfrifol am COVID-19, ond mae 'Rhagluniaeth fawr y nef' ar waith, ac yn sicr bydd y 'normal newydd' yn cynnwys gwasanaethau ar lein/ Zoom ayyb.

Mae cyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel enwadau i gydaddoli, i ddefnyddio ein hadnoddau dynol a'n hadeiladau yn llawer mwy effeithiol ar y cyd. Beth am werthu pob capel ond un mewn gofalaeth/cylch a chael hwnnw ar gyfer yr ardal, a newid y gweddill yn fflatiau/tai ar gyfer eu gosod/gwerthu i bobl ifanc y cylch? Mae llawer o bosibiliadau. Ewch ati yn llawn gobaith i feddwl ac i drefnu.

Pasg llawn llawenydd i bob darllenydd.

Rheinallt A Thomas
Llywydd Eglwysi Rhyddion Cymru

Ffarwelio â Mrs Menna Jones Tudalen 2

Ffydd a Diwylliant Tudalen 5

Gŵyl Llanw Tudalen 7

Ffarwelio â Mrs Menna Jones, Rheolwraig Swyddfa UBC

Ddiwedd mis Chwefror 2021, yn dilyn dros ugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon a chydwybodol, ffarweliwyd â Rheolwraig y Swyddfa, Mrs Menna Jones. Mae'r Undeb yn hynod ddyledus i Menna am ei gofal trylwyr yn Nhŷ Ilston, Abertawe, ac yn y Llwyfan, Caerfyrddin, lle bu'n llais cyfarwydd ar ben arall y ffôn i'n heglwysi a'n gweinidogion. Yn ddi-os gwelir eisiau ei gofal manwl dros waith y swyddfa a'i chyngor doeth.

Er mwyn nodi diwedd cyfnod Menna gyda'r Undeb, cynhaliwyd parti ffarwél trwy gyfrwng Zoom pryd y cafodd ei chyd-weithwyr gyfle i gyflwyno cyfarchion personol o ddiolch iddi. Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr y Cymanfaoedd, y Llywyddion, ynghyd â'r ddau gyn-Ysgrifenydd Cyffredinol, sef y Parchedigion Peter Dewi Richards a Peter Thomas. At ei gilydd, ymunodd dros ddeugain o bobl i ffarwelio ac i ddymuno'n dda iddi hi a'i phriod, Aelwyn. Lluniwyd cerdd yn bwrpasol i Menna gan y Parchedig Peter Thomas, a chyflwynwyd copi wedi'i fframio iddi. Yng Nghyfarfod Unedig y Cyngor a gynhaliwyd ddiwedd mis Mawrth cyflwynwyd tysteb i Menna a oedd yn fynegiant o werthfawrogiad yr eglwysi ac unigolion o'i chyfraniad arbennig i waith y Deyrnas.

I gyfarch Menna Jones ar ei hymddeoliad fel Ysgrifenyddes a Rheolwraig Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru

Ma' nhw'n dweud: i bob dechreuad
fod 'na derfyn maes o law
a thu ôl i'r haf a'i heulwen,
fod 'na 'aea'n celu draw;
yng ngorfoledd pob dydd geni,
ma' 'na dristwch diwedd oes
a'n profiadau yn cwmpasu
dyddiau llon a dyddiau croes.
Pan seinir yr agorawd,
ymhen dim, daw'r sioe i ben
a phob brawddeg gychwyn drama
yn arwyddo tynnu'r llen,
ni fyddai aur yn werthfawr
oni bai fod hwnnw'n brin
a bywyd heb ei ddyfnder,
pe bai pob dydd yn wyn.
Rhaid derbyn fod pob pennod
a'i chlo ymhen rhyw sbel
a phob "helô'n" acennu'n
anorfod – ein ffarwél.

Ond ma' 'na fwy i'n stori
na'i chychwyn mad a'i chlo,
mae'r hyn a brofwyd rhyngddynt
yn aros yn y co'.
A hwnnw rydd i'r digwydd
ei rin a'i sylwedd gwiw
a rhoi i'r darlun cyfan
ei ddyfnder coeth a'i liw.

A phan y byddwn heno
yn bwrw trem yn ôl
dros ysgwydd y blynyddoedd
a'r hyn a ddaeth o'u côl –
mi gofiwn gyda balchder
am dy gyfraniad di,
dy egni a'th ddiwydrwydd,
yr oriau dwys a'r sbri,
dy grebwyll a'th ymroddiad
a'th gwmni ar y daith
wrth inni ddwyn anrhydedd
I'r Un sydd piau'r gwaith.

Peter Thomas

Ymddeoliad Menna Jones

Hedfanodd y blynyddoedd
ers pan oedd swllt yn swllt,
a phawb yn 'nabod pobun
yn ninas fawr Garn-swllt.

Ar ôl diwrnodau ysgol,
pob dydd fel dydd o haf,
daeth modd i warchod arian
a'r banc yn weithle braf.

Ac yna un diwrnod
aeth Peter mas ar daith,
a'th gymell di i feddwl
am newid llecyn gwaith.

Tŷ Ilson oedd y fangre
i'r teulu bach llawn hwyl,
â PDR yn gapten,
yn ffrind, dydd gwaith a gŵyl.

Buost yno am ddau ddegawd
yn barchus iawn dy wedd,
gan estyn croeso cynnes
i holl genhadon hedd.

Cyd-weithwraig o 'team player',
o hyd yn ti dy hun,
a Menna'n ffrind o'r ffrindiau
a phawb yn byw'n gytûn.

A bellach rwyt yn mentro
troi cefn ar lwyfan gwaith,
i rannu gydag Aelwyn
y bennod newydd faith.

Denzil I John

Drwy'r Beibl Drwy'r Grawys

Cyfres o saith defosiwn gan Joseff Edwards o Gymdeithas y Beibl yn rhoi golwg inni ar ddarlun mawr y Beibl a'n rhan ynddo

Wythnos 7
Gobaith bywiol, y dadorchuddio a'n hangor – mae gan obaith enw

Darllen: 1 Pedr 1:3–4; Hebreaid 6.19–20

Myfyrio

'Cofia, Red, mae gobaith yn beth da, y peth gorau i gyd, efallai, a does dim byd da byth yn marw.' (Andy Dufresne yn y ffilm *Shawshank Redemption*)

Er gwaethaf erchyllterau carchar Shawshank, wnaeth Andy – gafodd ei garcharu am lofruddiaethau nad oedd wedi'u cyflawni – ddim gadael i obaith farw. Rhoddodd Andy ei obaith mewn stori – gweledigaeth o'r dyfodol ar ynys yn y cefnfor, man cynnes, bendigedig, lle caiff fyw weddill ei oes yn ddiogel ac yn hamddenol yn trwsio cychod. Fe wnaeth ei obaith mewn stori well ei helpu i wynebu brwydrau'r presennol.

Beth oedd gwraidd gobaith bywyd Pedr?
Wrth ysgrifennu at bobl oedd yn teimlo chwerwder alltudiaeth a dioddefaint oherwydd eu ffydd yn Iesu, mae Pedr yn llawn moliant ac yn hyderus am Dduw oherwydd yr hyn y mae Duw wedi'i wneud drosto. Nid 'gobeithio'r gorau' yw gobaith Beiblaidd, ond mae'n obaith sicr a real. Mae'r gobaith yn real, am fod Iesu'n real. Oherwydd, os oedd yr atgyfodiad yn real (a gwelodd Pedr y bedd gwag â'i lygaid ei hun), yna roedd gobaith yn real! Does ryfedd fod Pedr yn cymharu ein gobaith i 'etifeddiaeth' sydd i ddod i ni. Oherwydd, yn union fel y mae etifeddiaeth yn sicrwydd cyfreithiol, felly hefyd yr etifeddiaeth dragwyddol Gristnogol.

Pa wahaniaeth mae'r gobaith byw hwn yn ei wneud i ni heddiw?
Dydi Duw ddim wedi ein gadael yn y tywyllwch pan ddaw at ddiwedd stori fawr y Beibl. Enw'r bennod olaf yw'r Datguddiad. Daw'r gair 'datguddiad' ei hun o'r gair Groeg *apocalypse*, sy'n golygu 'dadorchuddio'. Mae fel llenni'n cael eu hagor i weld beth sydd yr ochr arall.

Does dim byd mwy pwerus na gobaith real. Ni allai stori'r Beibl gael diweddglo harddach. Pan fydd y llenni'n cael eu hagor, gwelwn fod gan obaith enw, a'i enw yw Iesu. Mae ein gobaith yn berson byw a real!

Wrth aros allan ar y môr gallai morwyr ollwng eu hangorau yn y nos er mwyn iddyn nhw orffwys. Gall angor enfawr wrthsefyll hyd yn oed y moroedd mwyaf stormus a pheryglus. Pan fydd y dyfroedd a'r gwynt yn dechrau codi, mae morwyr dibrofiad yn dechrau poeni'n syth. Ond mae gan y morwr profiadol hyder yn ei angor. Dyma beth yw bod â gobaith real a byw heddiw. Hyd yn oed yn y stormydd, gallwch orffwys, oherwydd eich bod chi'n gwybod pa mor fawr yw'ch angor.

Ymateb
'Clod i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist' – mae gwir obaith yn ein cyffroi i ganmol enw Duw. Gadewch i'ch calon gyffroi ac i'r gân atseinio ynoch chi heddiw!

Beth am fynd ymlaen i ddarllen rhannau o Lyfr y Datguddiad wrth i'n myfyrdodau ddod i ben yr wythnos hon:
Diwrnod 2: Datguddiad 1.1–20
Diwrnod 3: Datguddiad 3.1–22
Diwrnod 4: Datguddiad 4.1–11
Diwrnod 5: Datguddiad 7.1–17
Diwrnod 6: Datguddiad 20.11–15; 21.1–27
Diwrnod 7: Datguddiad 22.1–21.

Eglwysi Llundain yn croesawu'r byd i'w gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang

Hyfryd oedd cael dros gant o gyfeillion yn ymuno â ni o bob rhan o Gymru, Lloegr, Barcelona a Chanada ar gyfer gwasanaeth undebol Dydd Gweddi'r Byd eglwysi Cymraeg Llundain ddydd Sul, 21 Chwefror 2021, a hynny, am y tro cyntaf erioed, yn rhithiol. Hwn oedd digwyddiad agoriadol Wythnos Cymru yn Llundain.

Wrth inni agosáu at ddydd Gŵyl Dewi Sant, hollol briodol oedd ein bod yn uno mewn addoliad, er nad yn gorfforol, i ddathlu ein hiaith, ein crefydd a'n hetifeddiaeth. Huw Rhys-Evans, sydd erbyn hyn yn wyneb cyfarwydd ac yn ganwr nodedig yn ein gwasanaethau ar y Sul, a ganodd yr emynau mor deimladwy.

Hyfryd oedd croesawu'r dynion hefyd. Yn y gorffennol ychydig o ddynion oedd yn arfer mynychu'r gwasanaethau hyn, a hynny yn bennaf i helpu gyda'r ochr dechnegol. Rydym yn hynod ddiolchgar fod gennym Joanna Thomas-Wright wrth y llyw yn rheoli ac yn meistroli'r cyfan yn wyrthiol bob Sul.

Fe gymerodd 12 o eglwysi ran yn y gwasanaeth, ac mae'n gymaint o lawenydd rhannu addoliad gyda'n gwahanol enwadau yn Llundain. Mae ein gwasanaethau ar Zoom wedi dod â'r byd i'n cartrefi. Bellach rydym wedi dod i adnabod ein cyfaill o Eglwys Dewi Sant, Toronto, ac wrth gysylltu â Nest, dod i ddeall mai hi yw person cyswllt y World Day of Prayer yno. Yr oedd wrth ei bodd yn cymryd rhan ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Rwyf yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran am eu cyfraniad ac am eu parodrwydd i gefnogi'r gwasanaeth.

Gwen Wildman
(Swyddog penodedig ar y Pwyllgor Cenedlaethol yn cynrychioli'r eglwysi Cymraeg eu hiaith)

Gwen yn cymryd rhan yn y gwasanaeth ar Zoom â baner Vanatu yn gefndir

Newyddion o Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Ar brynhawn Sul y Pasg, 4 Ebrill, am 3 o'r gloch bydd y Parchedig Ddr Desmond Davies, Caerfyrddin, yn ein arwain mewn oedfa arbennig ar gyfer y Gymanfa gyfan i ddathlu'r Atgyfodiad. Mae croeso arbennig i unrhyw un ymuno â ni o unrhyw le yng Nghymru.

Oedfa Sul y Pasg
https://us02web.zoom.us/j/86577817431?pwd=c0JOb2ljRHY5SUdTUllyWGtqY0ZuUT09
Meeting ID: 865 7781 7431
Passcode: CYMANFA

Mae gan y Gymanfa dudalen newydd ar Facebook hefyd erbyn hyn: 'Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion'. Cliciwch ar: https://www.facebook.com/Cymanfa-Bedyddwyr-Caerfyrddin-a-Cheredigion-110005914500944/?ref=page_internal

Mae croeso i chi hoffi a rhannu os ydych chi'n defnyddio'r cyfrwng; bydd hwn yn fodd arall o ddangos gweithgarwch y Gymanfa.

Mewn cyfarfod o'r swyddogion yn ddiweddar penderfynwyd na fyddai'n bosib cynnal Cyfarfodydd y Gymanfa yng Ngharmel fis Mai oherwydd sefyllfa COVID-19. Byddwn yn asesu'r sefyllfa dros y misoedd nesaf er mwyn gweld y posibliadau yn yr hydref adeg y Cyrddau Hanner Blynyddol. Bydd rhagor o fanylion yn eich cyrraedd yn ystod yr wythnosau nesaf ynglŷn ag Anerchiad y Llywydd, y Parchedig Heini Jones, ac am yr oedfa nesaf a gynhelir ar nos Sul y Sulgwyn.



STAFELL FYW CAERDYDD
LIVING ROOM CARDIFF
CAIS
ADFERIAD RECOVERY

Cynnal d/o Adferiad Recovery,
96-98 Stryd Neville
Caerdydd CF11 6LS
E. wynfordellisowen@adferiad.org.uk
Ph. 07796464045

Pytiau'r Pasg

Os nad ydych yn credu yn yr atgyfodiad gwagedd yw'r cwbl:

> Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw'r hyn a bregethir gennym ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi, … Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno.
> 1 Corinthiaid 15: 14, 20

Nid un a fu yw Iesu ond un sydd yn fyw heddiw.

Nid sŵn yn unig oedd gair Duw ond gair yn gweithredu'n nerthol a chreadigol.

Mae Iesu bob amser o'n blaenau yn ein galw i brofiadau newydd a chyffrous.

Cerdded i'r machlud oedd hanes y ddau ar eu ffordd i Emaus ond ar ôl sacrament y swper trodd y ddau i wynebu'r wawr a dychwelyd i Jerwsalem.

Mae'r Testament Newydd yn dystiolaeth fod Iesu'n fyw. Pwy fyddai eisiau ysgrifennu am un a fu farw ar y groes?

Trwy atgyfodi Iesu daeth yn amlwg mai gan Dduw oedd y gair terfynol.

Treiglodd Duw y maen i ffwrdd, nid er mwyn i'w fab atgyfodi, ond er mwyn i ni wybod iddo atgyfodi, ac er mwyn i ni gael mynediad i'r bedd gwag a gweld bod angau wedi colli ei rym a'i ddychryn.

Ffydd a Diwylliant

Nia

Llun: www.stephen-walker-HqFSaD32blc-unsplash

Yn rhifyn olaf *Y Goleuad* roeddwn i'n pendroni ynglŷn â sut yr oeddwn i'n methu'n lân â sgwennu cerdd i gofio am ffrind i mi a fu farw yn llawer rhy ifanc.

Roeddwn i'n ystyried sut yr oedd ymbalfalu am y geiriau iawn, yn y drefn iawn i gyfleu yr hyn yr oeddwn i am ei ddweud, yn iawn, mor anodd ac mor debyg i daith ffydd. Ond bod rhywun yn gwybod bod pethau'n dod i drefn yn achlysurol, bod rhywun yn cyrraedd tir lle mae o'n gweld yn glir o dro i dro ac o'r herwydd bod gwerth mewn dyfalbarhau.

'[...] efallai o gydnabod fy methiant fy mod i gam yn nes at lwyddo,' meddwn i.

Ac yn wir fe ddaeth rhywbeth. Dwi am rannu'r broses gyda chi. Dyma drydydd drafft. Wn i ddim a fydd rhagor.

#3
Estyn am dy wên lleuad newydd
Drwy ffenest fechan, front.
Estyn am y chwarter golau
Drwy amser, dros bellter byw.
Estyn yn gwybod bod yno'n,
Cuddio'n y cysgodion,
Y tu hwnt i'm crebwyll,
Dri chwarter bywyd byr.
Estyn, â'm llygaid ar gau,
Am wên eirias
A seriodd fy amrannau
Flynyddoedd iau yn ôl.
Estyn, a chyffwrdd a chael
Bod y lleuad yn newydd eto,
Yno, am y ffenest lân â mi.

O gydnabod fy methiant, o drin a thrafod yr hyn oedd yn fy mhoeni i, o gydnabod nad oeddwn i'n mynd i nunlle wrth deithio ar hyd y llwybr yr oeddwn i arno fo, dyma fi'n taro ar lwybr newydd, a chyrraedd rhywle. 'Rhywle', nid y pen draw efallai, ond 'rhywle'.

Ac efallai fod yna wers i mi yn hynny o beth. Efallai y dylwn drin a thrafod fy methiannau yn amlach. Efallai, wrth din-droi a sgriblo, fy mod yn ddiarwybod, wedi llunio map i mi fy hun.

Dyna un o fendithion cael sgwennu'r golofn hon. Wn i ddim ydy hi erioed wedi cynnig bendith i'w darllenwyr, ond wrth din-droi a sgriblo ynglŷn â be dwi'n gredu a be dwi ddim yn ei gredu, dwi rywsut wedi creu map i mi fy hun.

'Nes i sylweddoli nad oeddwn i'n fodlon ar y llythrenoldeb diog yr oeddwn i wedi caniatáu fy hun i 'gredu' ynddo. Ond roeddwn i hefyd yn amau bod yna ffordd arall ymlaen, y byddwn i, o ddyfalbarhau, yn cael fy meddyliau i drefn, y geiriau i drefn ac yn cyrraedd rhywle fyddai'n caniatáu i mi weld yn glir, o dro i dro. Ac wrth wneud hynny 'nes i sylweddoli bod llu o bobl eraill oedd yn credu a ddim yn credu yr un fath â fi ledled y byd ac wrth fy nhraed.

Trafod 'Ffydd a diwylliant' oedd yr her osodwyd i mi flynyddoedd yn ôl. Ac fe brofodd yn fendithiol wrth chwilio am atebion mewn meysydd creadigol. Efallai mai estyn at 'wên lleuad newydd, trwy ffenest fechan, front' y mae rhywun, ond y gyfrinach yw parhau i 'estyn' a bod yn barod i gydnabod a thrafod ein methiannau, yn enwedig mewn cyfnodau o ansicrwydd fel hyn.

Arwel Rocet Jones

ADNABOD

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 39 Joseff o Arimatheia

Darllen: Luc 23:44–56

Gweddi

Yng ngwefr y Pasg, Arglwydd, boed i ni gadarnhau ein ffydd, a bod yn ymwybodol yn oesol mai Iesu byw yw Iesu'r Atgyfodiad. Helpa ni i weld y bedd gwag, a ffordd y bywyd yn agor o'n blaenau. Amen.

Cyflwyniad

Roedd digwyddiad erchyll y croeshoeliad, fel pob croeshoeliad arall, yn denu tyrfa. Anodd dyfalu beth sy'n denu tyrfa felly chwaith – efallai, oherwydd bod ymwelwyr wedi dod i'r ddinas beth bynnag a bod pobl, o glywed y ddedfryd, yn chwilfrydig i weld a fyddai diweddglo dramatig i fywyd Iesu gyda'r pwerau dwyfol yn achosi golygfa eithriadol. Yn hanes y temtio, roedd Iesu wedi ymwrthod â'r syniad o neidio oddi ar binacl y deml fel ffordd o ennill y deyrnas nefol. Prin y byddai'n neidio oddi ar y groes – a hynny'n arwain at dyrfa yn hawlio 'perfformans' mwy dramatig mewn ychydig amser.

Bu farw Iesu, ac mae Joseff yn gofyn i Pilat am gorff Iesu, er mwyn ei gladdu yn ei fedd ei hun. Roedd yn ddyn cyfoethog i fedru prynu bedd o'r fath, ac yn ddyn crefyddol a ddisgwyliai deyrnas Dduw. Mwy na thebyg ei fod yn un o ganlynwyr dirgel Iesu. Rhoddwyd ei ddymuniad iddo, ac nid oedd yn poeni bellach beth fyddai aelodau eraill y cyngor Iddewig yn ei ddweud.

Mae lleoliad y bedd, ynghyd â Golgotha ei hun, yn ôl y sôn yn rhan o'r Eglwys Sanctaidd yn Jerwsalem. 'The Church of the Holy Sepulchre' yw'r enw yn Saesneg. Dywed Luc nad oedd Joseff wedi cefnogi'r bwriad i groeshoelio Iesu, a sut fyddai Luc yn gwybod hynny, oni bai i Joseff ddweud wrth rywun yn yr Eglwys Fore. Ceir llawer o gyfeiriadau ato, yn arbennig gan yr eglwys Gatholig, yn dweud iddo gael ei ganoneiddio a'i gladdu yn Ynys Wydrin (Glastonbury), Lloegr.

Myfyrdod

Yn y weithred anhunanol o roi Iesu yn ei fedd ei hun, gellir dyfalu ei fod yn teimlo'n euog o fethu siarad o blaid Iesu ymysg aelodau'r cyngor. Annhebyg y byddai'n disgwyl nac yn deall mai dros dro y byddai defnydd Iesu o'i ogof-fedd. Rhaid bod Joseff wedi ymweld â'r ogof-fedd yn fuan ar ôl penwythnos yr Atgyfodiad, a gweld drosto'i hun fod y bedd yn wag. Gwyddai ei fod wedi gosod y corff yn y bedd ei hun, a byddai wedi gweld nad oedd fel y gadawodd y bedd ddiwrnodau ynghynt.

Er nad oes cyfeiriadau at Joseff yn y Testament Newydd wedyn, hawlir ei fod yn un o gymuned yr Eglwys Fore. Os gwir iddo gael ei gladdu ym Mhrydain, ni chafodd ei gladdu yn y bedd a ddefnyddiodd Iesu am ddwy noson. Gellir dweud i Joseff, wrth ofyn am gorff Iesu, ddangos ei ochr yn gyhoeddus o blaid Iesu, iddo gymryd cyfrifoldeb dros gorff Iesu a'i gladdu mewn man anrhydeddus, ac iddo uniaethu ei hun â theulu'r ffydd ar ôl hynny.

Bydd amryw yn amharod i ddweud ar goedd iddynt weld Iesu fel Mab Duw, ond bod y croeshoeliad a'r Atgyfodiad wedi troi Joseff o fod yn Gristion y cysgodion i fod yn Gristion cyhoeddus. Gellir dweud iddo weithredu ei ffydd mewn ffordd unigryw. *Rhoddodd ei fedd i Iesu'r Groes, ond rhoddodd ei fywyd i Iesu'r Atgyfodiad.* A ellir hawlio ein bod ninnau wedi dangos ein ffydd a rhoi ein bywydau yn gwbl i Fab Duw a Gwaredwr byd?

Gweddi

Arglwydd, diolch am y fraint o wybod bod Iesu'n fyw a'r bedd yn wag. Wrth gofio Joseff o Arimathea heddiw, gweddïwn dros bob Cristion y cysgodion, y byddant yn meddu'r hyder i ddangos i'r byd eu bod yn arddel Iesu fel Arglwydd bywyd. Amen.

Cymer, Arglwydd, f'einioes i
i'w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.
...

Cymer fy serchiadau, Iôr,
wrth dy draed 'rwy'n bwrw eu stôr;
cymer, Arglwydd, cymer fi
byth, yn unig, oll i ti.

Frances R Havergal
(cyf. John Morris Jones)

Trafod ac ymateb

- Beth, dybiwch chi, achosai i'r dyrfa fod yn awyddus i weld croeshoelio Iesu?
- Mae'r pedwar efengylydd yn sôn yn fyr am Joseff o Arimathea. Cymharwch yr hyn a ddywedir amdano yma gan Luc, ac ym Mathew 27, Marc 15 ac Ioan 19. O ystyried bod pawb arall wedi ffoi neu'n sefyll o hirbell, a fyddai gennym ni ddewrder i anghytuno â'r Sanhedrin ac i fynd at Pilat, â digon o ofal am gorff Iesu i gynnig bedd a chludo'r corff a thalu am liain?
- Trafodwch y datganiad ** a'r cwestiwn olaf yn y myfyrdod.

S4C

Gwener y Groglith, 2 Ebrill am 19.45yh
Neges arbennig dros gyfnod y Pasg gan Ddeon Cadeirlan Llanelwy, y Tra Barchedig Nigel Williams

Sul y Pasg, 4 Ebrill
Oedfa'r Pasg am 11:00yb
yng ngofal y Parch Ddr Rosa Hunt, Ton-teg

Nos Sul, 4 Ebrill am 19.00yh
Daw'r rhaglen yr wythnos yma o Lanelwy wrth i ni ddathlu'r Pasg. Cawn gydganu rhai o'n hoff emynau, mwynhau perfformiadau cerddorol o'r gadeirlan gan Dafydd Wyn Jones, Mared Williams ac eraill, a gwrando ar ddarlleniadau cyfarwydd o'r Beibl o Eglwys y Santes Fair, Cefn Meiriadog

BBC radio cymru

Gwener y Groglith, 2 Ebrill
oedfa am 11:30yb yng ngofal Huw a Nan Wyn Powell-Davies, Yr Wyddgrug

Sul y Pasg, 4 Ebrill
Caniadaeth y Cysegr am 7:30yb a 4:30yp
Rhaglen arbennig ar gyfer Sul y Pasg yn cael ei chyflwyno gan Christine James

Sul y Pasg, 4 Ebrill
Oedfa Radio Cymru am 12:00yp
yng ngofal Nan Wyn a Huw Powell-Davies, Yr Wyddgrug

Gweithredu a Gweddïo gydol y Grawys

31 Dydd Mercher, 31 Mawrth
Gweithred: Wrth gofio am Iesu yn troi'r byrddau yn y deml, beth am i chi feddwl am sefyllfa lle mae rhywun yn cael cam, a cheisio unioni'r cam hwnnw?

Gweddi: Gweddïwch dros bawb sy'n cael eu trin yn annheg a heb dderbyn cyflog teg am eu gwaith.

1 Dydd Iau, 1 Ebrill
Gweithred: Beth am brynu wy Pasg Masnach Deg heddiw a'i roi i ffrind?

Gweddi: Gweddïwch dros waith Masnach Deg ledled y byd a thros bawb sy'n hyrwyddo'r gwaith.

2 Dydd Gwener, 2 Ebrill
Gweithred: Wrth gofio am Iesu yn cael ei groeshoelio a thywyllwch yn dod dros y byd, beth am geisio bod yn oleuni Duw heddiw i rywun sy'n teimlo tywyllwch yn eu bywyd ar hyn o bryd?

Gweddi: Gweddïwch dros bopeth sy'n dywyll yn ein byd, gan ofyn i Dduw am ei oleuni.

3 Dydd Sadwrn, 3 Ebrill
Gweithred: Darllenwch benodau 24–5 o Efengyl Mathew er mwyn cael eich atgoffa o gyffro'r Pasg cyntaf.

Gweddi: Gweddïwch y bydd i neges a gobaith y Pasg ddod â chysur a nerth i lawer yn y cyfnod hwn.

4 Dydd Sul, 4 Ebrill
Gweithred: Darllenwch benodau 26–7 o Efengyl Mathew er mwyn cael eich atgoffa o gyffro'r Pasg cyntaf.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb fydd yn dathlu'r Pasg heddiw, mewn eglwysi ac ar aelwydydd.

5 Dydd Llun, 5 Ebrill
Gweithred: Darllenwch bennod 28 o Efengyl Mathew er mwyn cael eich atgoffa o gyffro'r Pasg cyntaf.

Gweddi: Gweddïwch y bydd i neges y bedd gwag a newyddion da atgyfodiad Iesu gyrraedd cymaint o bobl yn ein gwlad â phosib.

6 Dydd Mawrth, 6 Ebrill
Gweithred: Os bydd yn ddiogel, beth am drefnu i gyfarfod rhywun sy'n byw ar ei phen ei hun neu ar ei ben ei hun mewn gardd?

Gweddi: Gweddïwch dros y teuluoedd hynny yr oedd y Pasg eleni eto'n anodd iddyn nhw oherwydd na fu'n bosib iddyn nhw weld anwyliaid sy'n byw yn bell o gartref.

Newyddion lleol o'r eglwysi
Rydym yn awyddus iawn i gynnwys newyddion o'r eglwysi lleol: digwyddiadau, symudiadau, teyrngedau byr, llongyfarchiadau a dymuniadau gorau. Gyrrwch eich newyddion at y golygydd newyddion eglwysi, Aled Davies at aled@cennad.cymru

Gŵyl Llanw yn cynnig gŵyl rithiol lawn i bawb ymuno i ddathlu'r Atgyfodiad

Daeth gwahoddiad cynnes gan y trefnwyr i bawb ymuno ar gyfer yr amrywiol sesiynau sydd wedi eu paratoi ac a fydd ar gael i ymuno ynddynt ar y We. Rhagor o fanylion a chyswllt ar www.llanw.org ac ar dudalennau Facebook: Llanw | Facebook ac YouTube Llanw

Dathliad nos Lun, 5 Ebrill 7yh

Nos Lun, 5 Ebrill, bydd dathliad byw yn cael ei ddarlledu o Gaernarfon i'r byd.

Bydd yr addoliad a'r band byw ar y noson yn cael eu harwain gan Cadi Gwyn a Meilyr Geraint. Bydd anogaeth o'r Gair gan Nan Powell-Davies, a hefyd bydd cyfraniadau a thystiolaethau o bob rhan o'r wlad.

Bydd y cyfan yn cael ei ddarlledu'n fyw ar sianel Facebook ac YouTube Llanw, a bydd sesiynau 'ar ôl oriau' Zoom yn dilyn.

Plant ac Ieuenctid – 5 Ebrill

Ar 5 Ebrill bydd sesiynau Zoom wedi eu trefnu i'r plant a'r ieuenctid.

Zoom Plant Llanw (oed cynradd)
Bore Llun, 5 Ebrill 10.30am

Mae cofrestru ymlaen llaw yn angenrheidiol er mwyn cynorthwyo'r arweinwyr i baratoi deunydd addas a hefyd am resymau diogelwch.

Ffurflen Gofrestru Gwaith Plant

Zoom Ieuenctid Llanw (Bl 7–11)
Nos Lun, 5 Ebrill
8.30pm (yn dilyn y dathliad)

Mae cofrestru ymlaen llaw yn angenrheidiol er mwyn cynorthwyo'r arweinwyr i baratoi deunydd addas a hefyd am resymau diogelwch.

Ffurflen Gofrestru Gwaith Ieuenctid

Astudiaethau Beiblaidd – 6, 7 ac 8 Ebrill

Yna ar y tair noson ddilynol – 6, 7, 8 Ebrill – bydd yna astudiaethau Beiblaidd ar Zoom, eto am 7.00yh, yn cael eu harwain gan Gwilym Jeffs (Dathlu'r Atgyfodiad – o Farwolaeth i Fywyd), Alun Thomas (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Fywyd) a Gwilym Tudur (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Ogoniant).

Dyma gyfarfod hyfryd iawn
Dechreuadau newydd

Emyn 549: 'Fe dorrodd y wawr'

Darlleniad: Eseia 25:6–9

Ar hyd y canrifoedd, roedd pobl yr Arglwydd wedi credu, ac wedi gobeithio y deuai dydd pryd y byddai newyn eu heneidiau'n cael ei fodloni: y byddai'r gorchudd oedd yn eu rhwystro rhag adnabod Duw yn cael ei dynnu; y byddai galar byd-eang yn cael ei symud. Disgwylient am weld eu gwarth yn cael ei guddio, ac angau'n cael ei drechu. Byw mewn ffydd a gobaith oeddent.

Credwn fod Iesu Grist yn ei groes a'i atgyfodiad yn cyflawni'r disgwyliadau hyn i gyd, a'i fod yn wrthrych teilwng i'n ffydd a'n gobaith. Yn ei gariad mae'n ein denu i'w garu.

Darlleniad: Marc 16:1–8

Myfyrdod
Wrth ddarllen hanes yr Atgyfodiad yn Efengyl Marc, canfyddwn haenau gwahanol sy'n haeddu'n sylw:

Ffyddlondeb
Ni thybiodd y gwragedd am eiliad na fyddai corff Iesu yn y bedd y cafodd ei gladdu ynddo! Saif eu dewrder a'u ffyddlondeb i'w Harglwydd yn batrwm i ni i gyd. Er i'r disgyblion agosaf at Iesu ffoi, y gwragedd oedd yr olaf i adael y groes, yr olaf i adael y bedd, a'r cyntaf i uniaethu eu hunain ag ef wedi'r Saboth.

Galar
Na, ni thybiodd y gwragedd, wrth iddynt ddwyn eu peraroglau at y bedd, na fyddai corff Iesu ynddo. Roeddynt wedi ei weld yn cael ei osod 'mewn bedd oedd wedi ei naddu o'r graig' a maen wedi ei dreiglo dros yr agoriad. Cyflawni'r hyn oedd yn briodol, rhoi diwedd anrhydeddus oedd diben ymweliad Mair Magdalen, Mair mam Iago a Salome â'r beddrod y bore rhyfeddol hwnnw.

Mae'n wir fod Iesu wedi rhybuddio droeon y byddai'n dioddef ac yn atgyfodi (Marc 8:31; 9:30; 10:32). Ond mae'n amlwg nad oedd y disgyblion yn deall nac yn credu y digwyddai hynny mewn gwirionedd. Wedi'r cyfan, nid yw pobl sydd wedi marw yn dod yn ôl yn fyw!

Atgyfodiad
Nid hanes am ddewrder mewn galar yw hanes y Pasg. Hanes yr Atgyfodiad ydyw. Er chwilio amdano mewn bedd, nid oedd Iesu yno.

Mor aml y credodd y byd anghrediniol fod tystiolaeth Iesu wedi ei diffodd am byth. Weithiau, tybiodd yr eglwys ei hun fod Iesu wedi ei gaethiwo'n ddiogel yn nhraddodiad enwad, neu gapel, neu lan – fel pe bai modd caethiwo Iesu i gragen wag beddrod ein traddodiadau. Ond ni ellir caethiwo Bywyd gan ddim! A daw'r gair i herio ein hanghrediniaeth gyfforddus! Nid yw ef yma: y mae wedi Atgyfodi ac yn feunyddiol yn mynd o'n blaenau.

Profiad
Gerbron bedd gwag gorchfygwyd galar y gwragedd gan arswyd (adn 5,6,8). Nid rhyfedd felly mai cyfarchiad cyntaf yr angel iddynt oedd, 'Peidiwch ag arswydo ...' Pan ddown ninnau wyneb yn wyneb â'r newyddion am atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist, daw penbleth i'n baglu; brwydrwn ag anghrediniaeth wrth glywed y gair. Wyneb yn wyneb â'r hwn sy'n Fywyd anorchfygol, fe'n gorchfygir gan arswyd.

Profiad dyfnach
Dod at fedd wnaeth y gwragedd. Dod i chwilio am gorff. Dod i osod terfyn taclus ar bethau. Yn lle hynny cawsant neges – eu bod:

yn chwilio am y person cywir – 'Iesu, y gŵr o Nasareth a groeshoeliwyd'. Nid oes modd osgoi bod y neges am Arglwydd ar groesbren yn dramgwydd i grefyddwyr, yn ffolineb i ddoethineb y byd. Er hyn, ef yw'r un yr ydym yn ei geisio. Cyhoeddiad efengyl gras yw bod Duw yng Nghrist, yn nioddefaint Calfaria a buddugoliaeth y groes yn gorchfygu'r drwg, yn difa marwolaeth, yn ein cymodi â Duw.

yn y fan anghywir – 'y mae wedi ei gyfodi: nid yw ef yma ...' Peth ofnadwy ydy colli sbectol a methu dod o hyd iddi am nad ydyw yn y fan lle dylai fod! Peth gwaeth yw ceisio Iesu a chanfod nad yw'n fodlon cael ei gaethiwo i'n bocsys hanesyddol na'n gwisg ddiwylliannol neu grefyddol: 'Nid yw ef yma ...' A fydd o byth yn y fan yr hoffem iddo fod. Yn farw. Yn gaeedig. Yn saff!

i chwilio amdano lle yr oedd yn addo bod – wedi'r cyfan, 'y mae wedi ei gyfodi'. Ni ellir caethiwo'r Hwn a goncrodd angau. Rywsut y mae, ac fe fydd, 'yn mynd o'ch blaen'.

Wrth i ni gynllunio ein dyfodol fel cynulleidfaoedd ac enwadau gwahanol yng Nghymru, gadewch i ni wrando ar her yr angel a her yr Arglwydd ei hun. Gadael ein disgwyliadau am ble ddylai Iesu fod, a chanfod lle mae'n gweithio heddiw. Wrth ei geisio a'i ddilyn, erys un gorchwyl: 'Ewch a dywedwch.' Pan nad yw'r eglwys yn ufuddhau i'r gorchymyn: 'ewch', fe beidia ag ufuddhau i'r 'dywedwch' gorchestol. Bryd hynny mae'r eglwys yn colli cyswllt â'i Harglwydd, ei hamcan, a'i chymeriad.

Gwawrio dydd newydd
Yn union fel y cyhoeddwyd mai 'dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw' yw ei efengyl, mae Marc am i ni ddeall ar ddiwedd ei efengyl mai'r 'dydd cyntaf o'r wythnos, a'r haul newydd godi' yw cyd-destun yr atgyfodiad a diweddglo'r efengyl. Mae'n 'ddydd cyntaf' buddugoliaeth gras Duw. Mae'n 'ddydd newydd' – fe gododd yr haul. Cafodd angau ei hun ei drechu. Nid anghrediniaeth na gelyniaeth sydd â'r gair olaf. Ni chaethiwir Iesu byw. Crist byw a bedd gwag yw gobaith y byd. Dyma wirionedd cadarn, gwybodaeth ddiogel y gallwn bwyso arni. Dyma neges am Waredwr byw y medrwn roi ein holl gred ynddo a'n holl obaith ynddo. Dyma neges gyffrous am ddydd newydd ac wythnos newydd i'r ddynolryw. A dyna'r neges a gyhoeddwyd ym mhob man yn efengyl.

Darlleniad: 1 Corinthiaid 15:1–11

Gweddi
O Dduw, drwy atgyfodiad dy fab Iesu Grist oddi wrth y meirw, yr wyt wedi difa grym, gallu a theyrnasiad marwolaeth drosom ac wedi symud ein gwarth. Drwy allu dy Ysbryd Glân, coda ninnau o'n pechod, i eistedd gyda thi yn y nefolion leoedd i fwynhau'r wledd fuddugoliaethus 'ar y mynydd hwn' gyda thi. Caniatâ i ni lawenhau yn rhodd dy iachawdwriaeth. Caniatâ i ni fod yn dystion ffyddlon, yn weithredwyr cyfiawnder, yn gyhoeddwyr gobeithiol neges dy ras, gan dy garu a'th wasanaethu'n llawen. Amen.

Emyn 562: 'Crist a orchfygodd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru